Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Gorffennaf 2016

Arddangos proffesiynoldeb ar-lein

Mae ein safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad yn egluro'r ymddygiad ac agwedd a'r rhinweddau a nodweddion a ddisgwylir gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Yr un yw'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau sydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol wrth ryngweithio ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Defnyddio'r cyfryngau ymdeithasol

Mae'r CFfC yn disgwyl i weithwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll ac ymddwyn yn broffesiynol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o weithio gyda chydweithwyr, cyfoedion a'r cyhoedd.

Ond maen nhw'n gallu croesi'r ffin rhwng defnydd personol a defnydd proffesiynol –ystyriwch, wastad, ddisgwyliadau a chanfyddiadau cleifion, cydweithwyr a chyflogwyr.

Cofiwch ei bod yn hawdd iawn copïo a dosbarthu unrhyw beth a ddywedir ar-lein, a gellir ei ddefnyddio allan o gyd-destun. Gall hyn effeithio ar hyder a ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Byddwch yn barod i herio ymddygiad gwael a chodi gofidiau gyda'r unigolion neu sefydliadau priodol pan fo angen.

Cofiwch:

- ymddwyn yn broffesiynol
- trin pobl gyda pharch
- cadw cyfrinachedd a phreifatrwydd drwy'r amser
- cynnal ffiniau proffesiynol priodol
- meddwl cyn postio ar-lein, nid yw gosodiadau preifatrwydd wastad yn golygu y bydd rhywbeth yn para'n breifat a dyw datgan mai eich barn bersonol chi a fynegir yn golygu fawr ddim mewn gwirionedd

Peidiwch â:

- bwlio, aflonyddu na chodi braw
- camwahaniaethu'n anghyfreithlon
- postio sylwadau amhriodol
- rhannu gwybodaeth am gleifion a'u gofal
- cael eich tynnu i drafodaethau negyddol ac anadeiladol

Canllawiau pellach ac adnoddau

Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) wedi **cynhyrchu canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

Mae'r Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol wedi cyhoeddi **cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol** ar gyfer ei haelodau

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org